Rhif 3 Haf 1993 25c

# Heddwch

NEWYDDION GWEITHREDU cylchgrawn CND Cymru

## Dewch i Gyfarfod Blynyddol Aelodau CND Cymru

Mehefin 19, 11.00 am, Neuadd Les y Glowyr, Heol Aberhonddu, Ystradgynlais (rhwng Aberhonddu ac Abertawe).

Croeso i bob aelod o CND Cymru, a gall grwpiau ac aelodau cysylltiedig ddanfon cynrychiolwyr hefyd.

Bydd yr agenda yn cynnwys trafod penderfyniadau, ethol swyddogion, a chyfnewid syniadau creadigol ar ddiarfogi.

Nodwch Fehefin 19 yn eich dyddiadur yn awr a dewch i'r cyfarfod. Am wybodaeth bellach, cysyllter â Jill Stallard, tel. 05505 260.

### Raffl

Diolch yn fawr i bawb sydd wedi gwerthu tocynnau. Fedrwch chi werthu mwy? Os gellwch, rhowch wybod i Jill Stallard. Tynnir y tocyn buddugol yn y Cyfarfod Blynyddolv ar Fehefin 19.

## PROFION ARFAU NIWCLEAR

### Y sefyllfa bresennol:

**Ffrainc:** mae'r Arlywydd Mitterand wedi ymestyn moratoriwm Ffrainc ar brofion niwclear, ac mae wedi datgan ei gefnogaeth i Gytundeb Gwahardd Profion Cynhwysfawr (CGPC) ar goedd. Polisi Ffrainc bellach yw nad hi fydd y wlad gyntaf i ailgychwyn profion arfau niwclear.

**Y Cyn-Undeb Sofietaidd:** mae'r pedair talaith sydd ag arfau niwclear oll o blaid CGPC, a dywedant nad hwythau fydd y cyntaf i ailgychwyn profion arfau niwclear.

**UDA:** mae'r Arlywydd Clinton wedi datgan ei fod o blaid CGPC ac o blaid ailgychwyn profion niwclear. Mae moratoriwm yr UD yn dod i ben ar Orffennaf 1. Yn ystod wythnosau olaf goruchwyliaeth Bush, dywedwyd wrth y Rwsiaid y bydd gwaith yn cychwyn ar Fehefin 7 ar safle profi Nevada i baratoi ar gyfer ffrwydriad niwclear ar Orffennaf 28. Nid yw gweinyddiaeth Clinton wedi cadarnhau na gwadu'r dyddiad.

**Prydain:** dal i wrthwynebu moratoriwm yr UD yn swyddogol, ond yn methu cynnal unrhyw brofion niwclear o'r herwydd. Mae'r llywodraeth yn gwrthwynebu'r camau cyfredol tuag at GGPN.

**Tsieina:** cynhaliodd ei phrawf diweddaraf ym mis Medi 1992. Er nad yw'n fodlon datgan moratoriwm ar ei rhaglen brofion niwclear ei hun, mae wedi dweud y byddai'n fodlon arwyddo CGPC.

Mae'n amlwg mai gweithredoedd yr UD fydd yn pennu dyfodol profion niwclear; er bod llywodraeth Prydain yn wrthwynebus, ni all Prydain gynnal unrhyw brofion niwclear heb ganiatad America i ddefnyddio safle profion Nevada.

### Gweithgareddau ymgyrchu:

**Deiseb** – cewch ddeiseb newydd CND Cymru yn galw am GGPC yn amgaeedig. Casglwch gymaint o enwau ag y medrwch, da chi (os oes arnoch angen mwy nag un ddalen, llungopiwch ychwaneg neu cysylltwch â Mary Jones yn y Siop Heddwch) a dychwelwch ddalennau wedi eu cwblhau i'r *Siop Heddwch, 56 Mackintosh Place, Y Rhath, Caerdydd, CF2 4RQ erbyn Mehefin 15.*

**Ysgrifennu llythyron** – ar ran y Swyddfa Dramor, dywedodd y Fonesig Chalker yn Nhŷ'r Arglwyddi ' Parhawn i ystyried bod angen rhai profion niwclear fel y modd gorau o gynnal diogelwch a hygrededd ein harfau braw-ataliol ni'.

Ysgrifennwch ati, os gwelwch yn dda, d/o y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, Whitehall, Llundain, gan egluro y byddem yn fwy diogel o dan GGPC, a fyddai'n atal gwledydd eraill sydd yn ceisio datblygu arfau niwclear.

**Gwrthdystiad** – Ar y cyd ag CND Llanisien, mae CND Cymru yn trefnu gwrthdystiad yn y Sefydliad Arfau Atomig, Llanisien, Caerdydd ddydd Llun, Mehefin 7. Gwyddom bod dydd Llun yn ddydd anodd, ond dyma'r diwrnod mae'r gwaith fod i gychwyn ar safle brofi Nevada a mannau eraill yn UDA, yn Aldermaston, ac mewn mannau eraill yn Ewrop. Felly, os ydych o fewn cyrraedd rhesymol i Gaerdydd ac yn rhydd ar foreau Llun, dewch, da chi, a helpu i sicrhau llwyddiant y digwyddiad. Am fanylion pellach, cysyllter â'r Siop Heddwch ar 0222 489260.

## Crwydriaid dros Heddwch

### Taith Ystâd Cnewr, 12 Ebrill 1993, Llun y Pasg. MoD allan, Crwydriaid i mewn!

Cerddodd 25 Crwydryn dros Heddwch y llwybr á ganiateir' ar draws Ystâd Cnewr ar Fannau Brycheiniog. Mae'r llwybr yn rhedeg rhwng yr A4067, i'r de o gronfa ddŵr y Crai, a ffordd Glyntawe heibio i olygfeydd ysgubol lawr at yr arfordir, a phanorama eang o'r Bannau. Disgynodd y glaw ac aethom i gael te yn y Ganolfan Fynyddig ar ôl codi arwyddion dwyieithog smart yn dweud 'Cadwch yr MoD Allan' a 'Dim Milwyr'. Arwyddwyd llythyron cymunedol a'u danfon at Jonathan Evans, AS Brycheiniog a Maesyfed, ac at Gadeirydd y Parc Cenedlaethol.

Yn ein barn ni, mae gan y Weinyddiaeth ormod o hawliau tramwy ar gefn gwlad Cymru eisoes. Mae moesoldeb hyn yn hynod amheus ar adeg pan ddaw'n fwyfwy amlwg mai'r unig ffordd y ceir diogelwch gwirioneddol yw drwy ddealltwriaeth rhyngwladol, cydweithrediad a diplomatyddiaeth.




***Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw***

# Dyddiadau

**Mai 13** Cyfarfod Ymgyrchoedd y Siop Heddwch, Mackintosh Place, Caerdydd 6pm. Croeso i bawb.
**Mai 15** Diwrnod Gweithredu Ieuenctid CND Caerdydd. *Ffoniwch Eirlys Michael, 0222 705344.*
**Mai 17** 2-3 pm a phob pnawn Llun; gweddi ecwmenaidd dros heddwch.
**Mai 20** cyfarfod CND Abertawe, 7.30 pm, Tŷ Cwrdd y Cyfeillion, Page St., Abertawe. *Fiona Hayes 0792 367807.*
**Mai 21-22** Cynhadledd Plaid Lafur Cymru, Canolfan Aberconwy, Llandudno. Arddangosfa CND – *cysyllter â Mary Jones 0792 774687.*
**Mai 22** Cyngor CND Cymru 11.00am, Tŷ Cwrdd y Cyfeillion, Temple St., Llandrindod, Powys. Aelodau a chynrychiolwyr grwpiau yn trafod syniadau a gweithredu. Croeso i bawb. Gwybodaeth a rhannu ceir: *Jill Stallard 05505 260.*
**Mai 24** Diwrnod Rhyngwladol Menywod dros Ddiarfogi.
**Mai 24** Prosiect Llys y Byd yn Ne Cymru. Cyfarfod cyhoeddus gyda Rowan Williams, Esgob Mynwy, i lawnsio cyfnod olaf PLIB wrth iddo symud tuag at y ddadl yn y CU ar y cynnig. Ym mhedwar ban y byd mae dinasyddion a'u mudiadau yn cefnogi'r cam newydd hwn i wahardd arfau niwclear. Eglwys y Ddinas, Windsor Place, Caerdydd am 7.30pm. *Gwybodaeth gan Mary Jones ar 0792 774687.*
**Mai 29-Mehefin 5** Eisteddfod yr Urdd, Gorseinon, Abertawe. Croesewir pob cynnig o gymorth ar y stondin gan Gymry Cymraeg gan Jan ar 0792 830330.
**Mehefin 5-6** Cynhadledd ar Ymyrraeth, Birmingham. *Cysyllter ag Andy, W. Midlands CND ar 021 643 4617.*
**Mehefin 6-13** Wythnos Dŵr nid Arfau.
**Mehefin 7** Gwrthdystiad yn erbyn profion arfau niwclear 10am, SAA Llanisien. *Cysyllter â Brian Jones 0792 830330.*
**Mehefin 10** Casgliad drws-i-ddrws *Wythnos Dŵr nid Arfau yn yr Alltwen.*
**Mehefin 10** Cyfarfod Ymgyrchoedd y Siop Heddwch 6.00pm (gwel. Mai 13).
**Mehefin 12** Digwyddiad *Wythnos Dŵr nid Arfau#, Abertawe.*
**Mehefin 19** Cynhadledd Flynyddol CND Cymru, 11.00am, Neuadd Les y Glowyr, Ystradgynlais. *Gwel. erthygl tud. flaen.*
**Mehefin 19** CCB Mudiad Datblygu'r Byd, Gwesty'r Royal, Heol Eglwys Fair, Caerdydd, 11.00am-4.30pm. Siaradwyr yn cynnwys Glenys Kinnock a D. Elis Thomas.
**Mehefin 22-25** Gŵyl Glastonbury. Helpwch yn yr ŵyl, codwch arian i CND Cymru, a chewch fynediad YN RHAD AC AM DDIM! Diddordeb? *Cysyllter â Brian Jones ar 0792 830330.*
**Gorffennaf 4** Picnic heddwch i ddathlu Dydd Annibyniaeth ger llaw gwersyll yr UD, Breudeth, 2pm. Cyflwynir neges i Bennaeth y Gwersyll am 3pm.
**Gorffennaf 8** Cyfarfod Ymgyrchoedd y Siop Heddwch, 6pm (gwel. Mai 13).
**Gorffennaf 17** Ffair Sborion CND Llandrindod, *cysyllter â Vera Jones ar 0597 824367#*
**Gorffennaf 25** Stwffio amlenni â'r rhifyn nesaf o Heddwch yn y Siop Heddwch, 2pm. Hwyl a lluniaeth.
**Gorff 31-Awst7** Y Steddfod Genedlaethol – gwel. Ewch Ati!
**Awst 12** Cyfarfod Ymgyrchoedd y Siop Heddwch 6pm (gwel. Mai 13).

## *RHYDDID YR AWYR*

Mae Rhyddid yr Awyr yn gweithio o blaid cytundeb rhyngwladol i wahardd pob hedfan isel milwrol dros gymunedau cefn gwlad. Fel rhan o'r ymgyrch, rydym yn casglu deunydd ar gyfer blodeugerdd o gerddi rhyddiaith a lluniau ynglŷn ag effeithiau hedfan usel. Mae'r gwaith a ddaeth i law hyd yma yn lleisio'r dicter, y dryswch a'r ofn a deimlir gan gymaint o bobl pan fydd yr awyrennau'n hedfan drostynt – gan gyfleu'r profiad yn uniongyrchol i'r rheini sy'n byw y tu allan i barthau'r hedfan isel ac na fyddai'n ei chael hi'n hawdd deall ein teimladau fel arall. Os carech gyfrannu, cysylltwch â mi am wybodaeth bellach neu danfonwch eich gwaith yn syth at: *Maggie Chudley, Pistyllgwyn, Abergorlech, Caerfyrddin, Dyfed SA32 7BH. Tel. 0267 202388.* Diolch.

**Newydd! Ddim yn eich catalog CND Cymru ... yn boeth o'r wasg, nodlenni colomen Picasso. Wedi eu hargraffu mewn brown ar bapur hufen (eilgylch, wrth gwrs), 6 nodlen ac amlenni am ddim ond 95c yn cynnwys cludiant. Archebion at: Masnachu CND Cymru, 72 Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe SA8 3AN.**



# Gŵyl Heddwch De Morgannwg 1993

Ers naw mlynedd bellach, mae Rhwydwaith Heddwch De Morgannwg wedi trefnu Gŵyl Heddwch flynyddol wedi ei hanelu at blant a phobl ifanc y sir. Gofynnir i blant ysgrifennu cerdd neu beintio poster ar thema; thema eleni yw 'Mae gen i Freuddwyd', o araith enwog Martin Luther King.

Byddwn yn rhyfeddu beunydd wrth safon a chanfyddiaeth y gwaith a ddanfonir atom. Mae pobl ifanc yn poeni am heddwch, hawliau dynol a'r amgylchedd, a gobeithio bod yr ŵyl yn rhoi cyfle iddynt i fynegi eu barn.

Mae paratoadau ar gyfer Gŵyl eleni ar y gweill. Bydd y Garafan Heddwch yn yr Ais, Caerdydd o ddydd Llun 26 i ddydd Sadwrn 31 Gorffennaf, ar agor o 10am tan 5pm. Bydd y dydd Sadwrn yn ddiwrnod arbennig o adloniant rhad ac am ddim gyda cherddoriaeth, consurwyr a chlowniaid, a bydd peintio wynebau, tynnu lluniau a pheintio a gweithgareddau eraill yn y garafan bob dydd. Os carech helpu yn y garafan neu os carech fwy o wybodaeth am y gystadleuaeth Cerddi a Phosteri, ffoniwch y *Siop Heddwch ar 0222 489260 neu Mat Holloway ar 0222 599623.*




# Gweithred Menywod Burghfield

Cyrhaeddodd dau gant o fenywod Burghfield ger Reading ar Fawrth 24 i roi'r gwersyll ar y map, gyda chanu, dawnsio, gwisgoedd ymbelydredd a sawl cwningen binc o faint person. Gosodwyd mynegbyst a baneri yn cyfeirio at y sefydliad yn ei wir wedd: 'Burghfield Bomb Factory' a 'Burghfield Sperm Deformer'.



Arhosodd y rheini a allai yn y gwersyll hardd a baratowyd gan rai menywod o Greenham a chychwynnwyd blocâd yn gynnar fore Llun. Er gwaetha'r ffaith bod llawer mwy o heddgeidwaid nag o fenywod, llwyddwyd i atal pob cerbyd hyd wedi hanner dydd. Restiwyd tair heb gyhuddiad; wedi'r cwbl, sut ellwch chi gynnal blocâd ar rywle nad yw'n bod ar y map?

Dylai unrhywun â diddordeb mewn gweithredoedd pellach yn yr haf, neu dderbyn (yn rhad ac am ddim) yr *Aldermaston/Burghfield Update* sy'n rhoi'r holl wybodaeth i chi, gysylltu â: *Helen, d/o Brighton Peace Centre, Trafalgar*

# Galw pob ifanci! Pigion Ieuenctid CND Cymru

## Siaradwyr Ysgol

Aydych chi yn yr ysgol neu mewn coleg chweched dosbarth? Mae Ieuenctid CND (fel y fyddin) yn trefnu siaradwyr ysgol ar gyfer sesiynau astidiaethau cyffredinol, ac ati. Yn achos y fyddin, mae hynny i'ch darbwyllo yr hoffech yrru tanc a lladd pobl; yn achos ICND, i siarad am y bygythiad niwclear, posibiliadau diarfogi, a beth y gellwch chi ei wneud. Os hoffech i rywun ddod i annerch eich ysgol neu'ch coleg chi, danfonwch lythyr i'r cyfeiriad isod.



■ *Railroad Bill yn derbyn taflenni Trident yn wobr am ddiwrnod caled o chwarae*

## Sortio SOTT

Os ydych o dan 23 neu'n fyfyriwr, dylech fod yn derbyn *Sign of the Times (SOTT)*, cylchgrawn aelodau ieuentid a myfyrwyr CND, bob dau fis. Os nad ydych yn ei dderbyn, mae hynny naill ai am fod gennych aelodaeth deuluol neu eich bod wedi'ch cofrestru yn un o'r categoriau aelodaeth eraill. Y naill ffordd neu'r llall, rhowch wybod i ni a gellir sortio'r mater.

## Rhad ac am ddim

Posteri yw un o'r ffyrdd rhwyddaf a mwyaf effeithiol o hysbysebu ein barn a dangos ein bod o gwmpas. Mae dau boster ICND ar gael ar hyn o bryd yn rhad ac am ddim: 'Mae angen i ni ymladd rhyfel ... yn erbyn tlodi' (gyda '10 ffordd o newid y byd' ar y cefn) a 'Mae'r byd yn ei ddwylo – stopiwch brofion niwclear Prydeinig') gyda SOTT Rhif 22 wedi ei lapio amdano, gyda llun o John Major. Danfonwch i'r cyfeiriad isod am bosteri.

## Gair olaf

Mae'r ymgyrchu'n mynd yn ei flaen, ac estynwyd y dyddiad cau ar gyfer cardiau post John Major, gan fod nifer o grwpiau wedi dweud mai dim ond newydd ddechrau casglu llofnodion y maent. A barnu wrth yr ymateb hyd yma, gallai hyn fod yn addawol...

Mae Ieuenctid CND Caerdydd bellach yn cynnal dyddiau gweithredu rheolaidd bob mis, yn dosbarthu taflenni a chasglu enwau ar ddeisebau yng nghanol y dref (gwel. llun). Mai 15 yw'r diwrnod gweithredu nesaf.

Os hoffech wneud yr un peth yn eich tref neu'ch dinas chi, yna cofiwch bod taflenni a chyngor ar gael oddi wrth (sgwn i ble)... y cyfeiriad isod.

Y cyfeiriad isod ...

Ieuenctid *CND Cymru, d/o y Siop Heddwch, 56 Mackintosh Place, Y Rhath, Caerdydd CF2 4RQ.*

## Cymorth dyngarol

Yn sgîl 'Lleisiau dros Heddwch' ar Fawrth 17, hwylusodd CND Cymru gyfarfod gyda dau fudiad sydd eisoes yn danfon cymorth at wledydd y gyn-Iwgoslafia: 'Confoi Gobaith' ac âpêl Bosnia Cymru'.

Cytunwyd bod yna ffyrdd positif y gallem oll weithredu i liniaru dioddefaint y rhyfel ofnadwy hwn. Os ydych yn byw yng Nghaerdydd neu'r cyffiniau ac am gyfrannu neu wybod mwy, cysylltwch â Mary Jones ar 0792 776687.

## Clywed Lleisiau

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae CND Cymru wedi ysgrifennu llawer o lythyron yn cefnogi grwpiau heddwch yn y gyn-Iwgoslafia ac mae wedi derbyn rhai atebion. Mae Mudiad Heddwch Pancevo, Vojvodina am gydweithredu ag CND Cymru yn uniongyrchol. Os oes gennych ddiddordeb neilltuol yn hyn neu mewn unrhyw gysylltiadau eraill â grwpiau heddwch yn y gyn-Iwgoslafia, cysylltwch â Jill ar 05505 260.

*Pethau eraill y medrwch chi eu gwneud.*

Ysgrifennwch at eich AS a'ch ASE – gwna llythyr byr y tro. Galwch sylw at sefyllfa ffoaduriaid o wledydd Iwgoslafia. Pwysleisiwch yr angen i agor ffiniau ledled Ewrop i ffoaduriaid, a rhoi cymorth ariannol i wledydd sydd yn ffinio ardal y rhyfel sydd yn ymdrechu i ymdopi â miloedd o ffoaduriaid. Byddai'n arwydd pwysig i weddill y byd pe bai i'r DU newid ei pholisi a chroesawu ffoaduriaid a gwrthwynebwyr cydwybodol.

## Llanisien: Y rheolwyr newydd

Ar Ebrill 1, aeth rheolwyr newydd yn gyfrifol am SAA Llanisien. Dewiswyd un aelod o'r consortiwm Brown & Root oherwydd eu 'profiad niwclear'. Mewn adroddiad a gyhoeddwyd gan Greenpeace ym mis Ebrill, dysgwn bod Brown & Root wedi bod yn gyfrifol am dorri rheolai adeiladu a chynllunio wrth adeiladu gorsafoedd niwclear yn UDA. Mewn un orsaf niwclear, llwgrwobrwyodd y cwmni weithwyr i beidio â datgelu problemau diogelwch. A yw safle Llanisien yn ddiogel yn nwylo Brown & Root? Oni ddylid ymchwilio i'r cwmni hwn? Ysgrifennwch at eich AS a gofyn!

### Newyddion Gweithredu Heddwch

- **Bydd y rhifyn nesaf o Newyddion Gweithredu Heddwch yn ymddangos ym mis Gorffebbaf 1993**
- **Croeso i bob cyfraniad**
- **Danfonwch at Jane, 9 Heol Iscoed, Rhiwbeina, Caerdydd CF4 6PA**
- **Y dyddiad cau ar gyfer erthyglau yw dydd Sadwrn 22 Mai 1993**
- **Croeswir pob cymorth gyda'r gwaith golygyddol**



## Prosiect Llys y Byd: Gogledd Cymru

Daeth rhyw 40 o bobl i gyfarfod cyhoeddus yn Wrecsam ar 25 Mawrth i lawnsio Prosiect Llys y Byd yn lleol. Anerchwyd y cyfarfod gan Comander Rob Green RN (wedi ymddeol), Cadeirydd Adran Brydeinig y cynllun rhyngwladol hwn, sydd â'r nod o sicrhau dyfarniad gan Lys y Byd bod arfau niwclear yn anghyfreithlon. Aethpwyd â rhai cannoedd o ffurflenni ymrwymo ymwaith gan y rhai a fynychodd y cyfarfod, a phan fyddant wedi eu cwblhau, fe'u cyflwynir ynghyd â'r rheini a gasglwyd mewn llawer gwlad arall i Gynulliad Cyffredinol y CU. Sefydlwyd gweithgor i ddatblygu'r ymgyrch yn lleol: am wybodaeth bellach, cysyllter â Dave Andrews ar 0978 310491.

# Contacts

## CAMPAIGN CONTACTS

■ **Nuclear Testing, Nuclear Proliferation and Nuclear Power;**
**Brian Jones**, 72 Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe, SA8 3AN. Tel 0792 830330

■ **Disarmament and Development, Defence Conversion, and Campaigning against the Arms Trade;**
**Mary Jones**, c/o Peace Shop, 56 Macintosh Place, Cardiff, CF2 4RQ. Tel. 0222 489260

■ **De-militarisation of Wales;**
**Rod Stallard**, Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Dyfed SA20 0LR. Tel. 05505 260

■ **Low Flying;**
**Gillian Metcalf**, Tŷ Yfory, LLanfair Road, Lampeter, SA48 8JZ. Tel. 0570 45576

■ **Youth CND;**
**Joe Castle**, 25 Aberystwyth Crescent, Barry, CF6 8EH. Tel 0446 738020

## MORE INFORMATION? ANY IDEAS?

■ **Please get in touch with your nearest CND Cymru Vice chair;**
**Ann Hall**, Blaenau Ffestiniog Tel. 0766 831356
**Medi James**, Aberystwyth Tel. 0970 832725
**Rod Stallard**, LLandovery Tel. 05505 260
**Brian Jones**, Swansea Tel. 0792 830330
**or CND Cymru General Secretary, Jill Stallard**. Tel. 05505 260

## *Dear Editor,*

Re; Wayne David's letter on Maastricht.


After weighing the pros and cons of Maastricht, Wayne David has closed his eyes to many shocking consequences of this and allied treaties.

The future for Britain in its present parlous economic situation is this: to come to a single currency within the rules presently laid down will mean that the economy will have to deflate to an extent that will make the period of the hungry thirties look like a tea party.

Contingent with this will be the politics of a superstate. At the moment they pay lipservice to NATO (of course because the USA still looms large in the wings) but hints are there for a European arms industry, a European foreign policy and I personally fear nuclear arms under the control of the largest army in the up-and-coming WEU – the German army.

As Llew Smith put it succinctly, the new Europe will be a Europe dominated by bankers and bomb-builders. It will certainly not be a Europe in which Welsh culture will be allowed to flourish as some optimists hope.

Yours faithfully,
Denis Martin (Ex-Services CND)
5 Coed y Brain Rd, Llanbradach, Mid-Glamorgan.




■ **Trawsdrosodd Mawrth 13 1993. Treuliodd rhyw 150 o wrthdystwyr ddiwrnod yn Nhrawsfynydd o dan wybren las ar Fawrth 13. Cadwynodd rhai ohonynt eu hunain wrth glwyd. Daeth peiriannydd yr orsaf, John Ellis, allan i siarad â'r protestwyr pryderus. Cariai plentyn o Lannau Merswy faner yn dweud: 'Pe bai gan y Rhufeiniaid ynni niwclear, byddem ninnau'n dal i warchod eu gwastraff'.**

## Trawsfynydd

Mae gorsaf niwclear MAGNOX oedrannus Trawsfynydd yng Ngwynedd heb gynhyrchu trydan ers 26 mis. Mae'r ffyn clymu sy'n cynnal llestr yr adweithydd wedu cyrydu; adroddwyd iddynt gael llunio o'r metel anghywir.

Mae Nuclear Electric yn cynnig ailgychwyn yr adweithydd ar dymheredd uwch a phwysedd is i ddylanwadu ar hydwythedd y metel. Byddai hon yn broses beryglus, yn enwedig wrth gychwyn yr adweithydd a'i gau i lawr.

Nid yw'r Arolygaeth Niwclear wedi derbyn cynigion ailgychwyn Nuclear Electric, ac maent wedi gosod amodau pellach cyn y gellir ailgychwyn.

Rhaid i ni wrthwynebu'r cynllun peryglus hwn i ailgychwyn Trawfynydd. Gallai achosi tawdd-lawr gyda chanlyniadau trychinebus i Wynedd a gweddill Cymru, a llawer rhan arall o Brydain.

Rhaid dal i bwyso ar yr Arolygaeth Niwclear i wrthod caniatad i Nuclear Electric i ailgychwyn adweithydd Trawsfynydd. Ysgrifennwch at: The Nuclear Installations Inspectorate, 1 Chepstow Place, Westbourne Grove, Llundain W2 4TF.

# Ewch Ati!

**EWCH ATI I BOSTIO** – yn y rhifyn hwn o Newyddion Gweithredu Heddwch, cewch gerdyn post yn galw am ostyngiad yng ngwariant milwrol y DU. Rhowch eich enw a'ch cyfeiriad arno, enw eich AS (os na wyddoch pwy ydyw, gofynnwch yn y llyfrgell), rhowch stamp arno a'i bostio. Danfonwch unrhyw ateb a dderbyniwch at Jill Stallard, Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, os gwelwch yn dda, er mwyn i ni gael darlun cenedlaethol o ymateb ein HSau. Diolch yn fawr iawn!

**EWCH ATI I HELPU** – yn Eisteddfod yr Urdd, yng Ngorseinon ger Abertawe, Mai 31-Mehefin 5. Bydd gan CND Cymru stondin yno, fel arfer, ac rydym yn edrych am bobl i helpu ar y stondin, yn enwedig Cymry Cymraeg. Os gellwch gynnig diwrnod, neu hyd yn oed hanner diwrnod, byddai'n dda iawn clywed gennych ar 0792 830330.

... ac yn y 'Steddfod Genedlaethol yn Llanelwedd o Orffennaf 31-Awst 7. Bydd CND Cymru yn rhannu pabell gyda Chynghrair Wrth-Niwclear Cymru ac fe fyddem yn croesawu cymorth, yn enwedig gan Gymry Cymraeg. Cysylltwch â ni ar y rhif uchod.

# Get Active!

**GET POSTING** . . . included with this Heddwch Action News you will find a postcard calling for a reduction in British military expenditure. Please add your name and address, the name of your MP (if you don't know who your MP is, ask in the library), put a stamp on it and post it off today! Please also send any reply you receive to Jill Stannard, Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, so that we can get a national picture of Welsh MP's views. Thanks very much!

**GET HELPING** . . . at the Urdd Eisteddfod, which will be at Gorseinon near Swansea from May 31-June 5. CND Cymru will have a stall there as usual, and we are looking for people to help staff it, preferably Welsh speakers. If you can offer a day, or even half a day, we'd be very pleased to hear from you on 0792 830330.

... and at the National Eisteddfod at Llanelwedd from July 31-August 7. CND Cymru will be sharing a tent with the Welsh Anti-Nuclear Alliance and we'd welcome help, especially from Welsh speakers. Contact us on 0792 830330.

# Trawsfynydd

The ageing MAGNOX nuclear power station at Trawsfynydd in Gwynedd has not produced electricity for 26 months. The tie rods supporting the reactor vessel have corroded; it's been reported that the metal used for these rods was incorrect.

Nuclear electric is proposing to restart the reactor at a higher temperature and lower pressure to influence the ductability of the metal. This would be a dangerous operation, particularly during start-up and the close-down.

The Nuclear Inspectorate has not accepted Nuclear Electric's proposals to restart, and have set further conditions before a start-up is sanctioned.

We must oppose this highly dangerous plan to restart Trawsfynydd. A melt-down could occur with catastrophic consequences for Gwynedd, Wales and much of Britain.

We must continue to press the Nuclear Inspectorate to refuse to allow Nuclear Electric to restart the reactors at Trawsfynydd. Write to The Nuclear Installations Inspectorate, 1 Chepstow Place, Westbourne Grove, London, W2 4TF.

■ **Trawsfinished March 13 1993. About 150 demonstrators spent a day at Trawsfynydd under a blue sky on March 13. Some chained themselves to the gate. The station engineer John Ellis came out to talk to the concerned protesters. A child from Merseyside CND held a banner saying 'If the Romans had nuclear power, we'd still be guarding their waste'.**




## *Annwyl Olygydd,*

Parthed llythyr Wayne David ar Maastricht.

Ar ôl pwyso a mesur Maastricht, mae Wayne Davis wedi cau ei lygaid i lawer o ganlyniadau difrifol y cytundeb hwn a rhai eraill cysylltiedig.

Y dyfodol i Brydain, yn sefyllfa ariannol bresennol drychinebus y gwledydd hyn, yw hyn: fe olyga uno gydag un math o arian cyfred o fewn y rheolau presennol y bydd yn rhaid dadchwyddo'r economi i raddau a wna ddirwasgiad y tridegau i edrych fel te parti.

Yn amodol ar hyn bydd gwleidyddiaeth goruwch-wladwriaethol. Ar hyn o bryd, maent yn dal i dalu teyrnged i NATO (wrth gwrs, gan fod UDA yn dal yn ddylanwadol yn yr esgyll) ond mae'r argoelion yno ar gyfer masnach arfau Ewropeaidd, polisi tramor Ewropeaidd, ac yr wyf fi yn bersonol yn ofni arfau niwclear o dan reolaeth y fyddin fwyaf yn yr UGE sydd yn datblygu – byddin yr Almaen.

Fel y dywedodd Llew Smith yn gryno, bydd yr Ewrop newydd o dan reolaeth y bancwyr a'r adeiladwyr bomiau. Yn sicr, ni fydd yn Ewrop y gall diwylliant Cymru ffynnu o'i mewn, fel y gobeithia rhai optimistiaid.

Yn gywir iawn,
Denis Martin (CND Cyn-Luoedd Arfog)
5 Ffordd Coed y Brain, Llanbradach, Morgannwg Ganol

# Cysylltiadau

## CYSYLLTIADAU YMGYRCHU

■ **Profion Niwclear, Lledaeniad Niwclear ac Ynni Niwclear:**
**Brian Jones**, 72 Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe SA8 3AN. Tel 0792 830330

■ **Diarfogi a Datblygiad, Addasu Amddiffyn, ac Ymgyrchu yn erbyn y Fasnach Arfau:**
**Mary Jones**, d/o Y Siop Heddwch, 56 Mackintosh Place, Caerdydd CF2 4RQ. Tel. 0222 489260

■ **Dadfilwreiddio Cymru:**
**Rod Stallard**, Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Dyfed SA20 0LR. Tel. 05505 260

■ **Hedfan Isel:**
**Gillian Metcalf**, Tŷ Yfory, Heol Llanfair, Llanbedr Pont Steffan SA48 8JZ. Tel. 0570 45576

■ **Ieuenctid CND:**
**Joe Castle**, 25 Aberystwyth Cres., Y Barri CF6 8EH. Tel. 0446 738020

## MWY O WYBODAETH? UNRHYW SYNIADAU?

■ **Cysylltwch â'ch Is-gadeirydd CND Cymru lleol, os gwelwch yn dda:**
**Ann Hall**, Blaenau Ffestiniog
**Tel. 0766 831356**
**Medi James**, Aberystwyth
**Tel. 0970 832725**
**Rod Stallard**, Llanymddyfri
**Tel. 05505 260**
**Brian Jones**, Abertawe
**Tel. 0792 830330**
**neu Ysgrifennydd Cyffredinol CND Cymru,**
**Jill Stallard**, Tel. 05505 260